

Ymgynghoriad ar god ymarfer parcio preifat

Yn 2023 ymatebodd Comisiynydd y Gymraeg i'r alwad wreiddiol am dystiolaeth ar ffioedd parcio preifat a ffioedd adennill dyledion.

Nododd ein hymateb gwreiddiol fod ein swyddfa wedi bod yn derbyn nifer cynyddol o gwynion ynghylch diffyg gwasanaethau cyfrwng Cymraeg gan gwmnïau parcio ceir preifat. Oni bai bod cwmnïau parcio preifat o'r fath yn cynnal gwasanaethau ar ran sefydliadau cyhoeddus fel awdurdodau lleol, nid oes rhaid iddynt gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae hyn yn golygu nad oes gennym lawer o ddylanwad uniongyrchol ar sicrhau bod cwmnïau parcio preifat o'r fath yn darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghymru.

Fel y gwyddoch, mae sawl achos llys sifil wedi cael eu dwyn yn erbyn cwmnïau parcio ceir preifat oherwydd diffyg gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. Mae'r cyhoeddusrwydd a ddaw i achosion llys sifil o'r fath yn debygol o gynyddu'r tebygolrwydd y bydd modurwyr yn herio cwmnïau parcio preifat ar sail diffyg gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. Nid yw cynnydd o'r fath mewn cwynion a nifer o achosion llys posibl o fudd i neb. Yn bwysicach, dylai gweithrediadau parcio ceir preifat yng Nghymru adlewyrchu'r ffaith fod gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru yn sgil Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac ni ddylid ei thrin yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg.

Fel y nodwyd yn ein hymateb i'ch galwad am dystiolaeth yn 2023, dylai'r cod ymarfer arfaethedig gynnwys canllawiau ynglŷn â'r defnydd o'r Gymraeg yn y diwydiant parcio preifat yng Nghymru. Gallai hyn gynnwys canllawiau ar faterion megis arwyddion dwyieithog, cyhoeddi hysbysiadau dwyieithog, cymwysiadau dwyieithog ar gyfer teclynnau symudol, a'r gallu i apelio drwy gyfrwng y Gymraeg. Gallai'r canllawiau hefyd gyfeirio at y gefnogaeth sydd ar gael i gwmnïau preifat ddatblygu eu gwasanaethau Cymraeg yng Nghymru. Dylid nodi hefyd fod nifer o gwmnïau parcio ceir preifat yn gweithredu yng Nghymru sy'n darparu gwasanaeth dwyieithog ac felly gellid defnyddio hyn yn enghraifft o'r arferion gorau. Byddai cynnwys canllawiau o'r fath yn hwyluso ein gallu i weithio gyda chwmnïau preifat i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg.

Consultation on the private parking code of practice

In 2023 the Welsh Language Commissioner responded to the original call for evidence on private parking charges and debt recovery fees.

Our original response indicated that our office has been receiving an increasing number of complaints regarding the lack of Welsh medium services by private car parking companies. Unless such private car parking companies maintain services on behalf of public organisations such as local authorities, private car parking companies are not subject to the Welsh Language Standards under the Welsh Language (Wales) Measure 2011. This means we have little direct influence on ensuring such private car parking companies provide services through the medium of Welsh in Wales.

As you may be aware, several civil court cases have been brought against private car parking companies due to lack of Welsh medium services. The publicity brought to such civil court cases is likely to increase the likelihood that motorists will challenge private car parking companies based on the lack of Welsh medium services. Such an increase in complaints and possible litigation is not in anyone's interest. More importantly, private car parking operations in Wales should reflect the fact that the Welsh language has official status in Wales as a result of the Welsh Language (Wales) Measure 2011 and should not be treated less favourably than the English language..

As argued in our response to your call for evidence in 2023, the code of practice should include guidance regarding the use of Welsh in the private car parking industry in Wales. This could include guidance on such matters such as bilingual signage, the issuing of bilingual notices, bilingual mobile applications, and the ability to appeal through the medium of Welsh. The guidance could also refer to the support available to private companies to develop their Welsh language services in Wales. It should also be noted that there are several private car parking companies operating in Wales who do provide a bilingual service and thus could be used to exemplify best practice. Including such guidance would greatly facilitate our ability to work with private companies to increase their use of the Welsh language.